



27 Mawrth 2020

Annwyl gydweithiwr

## **Datganiad ar ddull haf 2020 o ran dysgwyr Safon UG a Blwyddyn 10 yng Nghymru**

Yr wythnos diwethaf gwnaed y penderfyniad i gau ysgolion a chanslo holl arholiadau'r haf hwn. Fe wnaethom egluro sut y bydd graddau TGAU a Safon Uwch yn cael eu dyfarnu. Heddiw gallwn amlinellu'r ffordd ymlaen i ddysgwyr a oedd i fod i sefyll eu harholiadau safon UG a dysgwyr Blwyddyn 10 a fyddai wedi cymryd asesiadau uned yng Nghymru yr haf hwn. Yr wythnos nesaf byddwn yn diweddarau ar gymwysterau eraill.

### **Safon UG**

Yng Nghymru, mae safonau UG yn gymwysterau annibynnol yn ogystal â bod yn gyfraniad at gymwysterau Safon Uwch - fel arfer bydd dysgwyr yn cwblhau unedau UG ym mlwyddyn 12, ac yna unedau A2 ym mlwyddyn 13. Gan fod canlyniadau UG yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch, mae'n bwysig ein bod ni, Llywodraeth Cymru, a CBAC yn ystyried goblygiadau hyn ar gymwysterau Safon Uwch haf 2021 yn ofalus.

Heddiw, yn sgil ystyriaeth ddyrys o'r dewisiadau y gallwn gymryd, yn ogystal â'r cyngor a roddwyd gennym, mae'r Gweinidog wedi penderfynu na fydd y dysgwyr a oedd i fod i sefyll eu harholiadau Safon Uwch eleni yn gorfod eu sefyll yn nes ymlaen.

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Yn hytrach, byddant yn cael eu trin yn yr un modd â'r rhai sy'n gwneud eu TGAU a'u Safon Uwch.

Eleni, bydd yr holl ddysgwyr UG yn derbyn gradd UG ac ni fydd arholiadau UG yn cael eu cynnal nes Haf 2021. Bydd y radd a ddyfernir yn seiliedig ar ystod o dystiolaethau gwahanol, gan gynnwys graddau a aseswyd gan athrawon, ac ni fyddant yn cyfrannu tuag at ganlyniadau Safon Uwch yn 2021.

Yn ystod haf 2021, bydd gan ddysgwyr UG ddau ddewis o ran eu dyfarniad Safon Uwch. Gallant un ai dewis sefyll yr unedau A2 yn unig, gan olygu bydd eu gradd Safon Uwch yn cael ei ddyfarnu ar sail eu perfformiadau yn yr unedau hynny yn unig, neu gallant ddewis sefyll unedau UG yn ogystal â'r unedau A2. Pe byddent yn dewis sefyll yr unedau UG yn ogystal â'r rhai A2, byddent yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

### **Dysgwyr Blwyddyn 10**

Bydd y dysgwyr Blwyddyn 10 a oedd i fod i sefyll arholiadau a fyddai wedi arwain at gymhwyster TGAU llawn yn yr haf yn derbyn gradd yn dilyn yr un drefn â dysgwyr Blwyddyn 11. Bydd graddau a aseswyd gan athrawon a thystiolaethau eraill yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r graddau.

Ni fydd dysgwyr Blwyddyn 10 a oedd i fod i sefyll unedau a fyddai'n arwain at ganlyniadau TGAU yr haf nesaf, yn derbyn canlyniad ar gyfer unedau. Bydd gan y dysgwyr hynny ddau ddewis. Gallant un ai sefyll yr unedau y maent yn bwriadu eu dewis yn haf 2021 yn unig, gyda'u gradd TGAU yn cael ei gyfrifo ar sail y perfformiad hwnnw yn unig. Neu, yn hytrach, gallant ddewis sefyll yr unedau Blwyddyn 10 yn ystod haf 2021 yn ogystal ag unedau Blwyddyn 11. Pa bynnag lwybr a ddewisir gan y dysgwyr, byddent yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

### **Arweiniad Pellach**

Ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau, bydd graddau a aseswyd gan athrawon yn cael eu casglu fel rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i benderfynu graddau terfynol cymwysterau. Bydd cyngor ac arweiniad ynglŷn â'r graddau a aseswyd gan athrawon yn cael ei anfon i ysgolion a cholegau yr wythnos nesaf.

Mae CBAC eisoes wedi darparu rhagor o arweiniad o rran asesiadau di-arholiad, a fyddai wedi bod ar gamau gwahanol o'u cwblhad pan gaewyd ysgolion.

### **Cymwysterau heblaw am TGAU, UG, Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau**

Rydym wrthi'n ddiwyd yn ceisio cadarnhau'r sefyllfa o ran y cymwysterau eraill a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru. O ran y cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru'n unig, rydym yn cydweithio'n agos â'r cyrff dyfarnu a'r rhanddeiliaid er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir i'n dysgwyr, byddwn yn rhoi diweddariad ar hynny'r wythnos nesaf.

O ran cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr ledled y DU, rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill y DU, cyrff dyfarnu, a llywodraethau er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn yn rhannu'r manylion unwaith y bydd hynny'n bosibl.

Gwnaethpwyd yr holl benderfyniadau yng nghyd-destun cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen. Rydym yn ymwybodol eich bod chi'n chwilio am atebion i sawl cwestiwn gwahanol, ac rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu'r datrysiadau gorau posibl. Diolch i chi am eich amynedd – byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth wrth iddo ein cyrraedd, felly cofiwch edrych ar ein gwefan os gwelwch yn dda.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr